# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2018**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HAF 2018**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**

**Cofio Can Mlynedd Ers Y Rhyfel Byd Cyntaf**

**A1.** Pryd dechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf? [1]

1914

✓ = 1 marc
(Casglu gwybodaeth)

**A2.** Pam gwnaeth yr artistiaid Paul Cummins a Tom Piper greu 888, 246 o flodau pabi coch seramig? [1]

Un pabi i gynrychioli pob milwr **Prydeinig** / o Brydain a laddwyd yn y rhyfel.

✓ = 1 marc
(Casglu gwybodaeth)

**A3.** Rhowch **ddwy** enghraifft o'r tactegau a ddefnyddiwyd i berswadio dynion i ymuno â'r fyddin. [2]

- **Posteri** propaganda
- Cyfarfodydd recriwtio
- Pwysau **crefyddol**
- Pwysau **cymdeithasol**

✓ = 1 marc
(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 2**

**Recriwtio a gofynion bod yn filwr**

**A4.** Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf roedd dynion yn rhuthro i ymrestru. Mae pump o'r sylwadau isod yn gywir. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **pedwar** sylw cywir arall. [4]

| | |
|---|---|
| Doedd dynion ddim am golli'r cyfle i gael hwyl, antur a theithio'r byd. | ✓ |
| Dyma siawns i brofi dewder ac ymladd dros eich gwlad. | ✓ |
| Rhan o ddyletswydd crefyddol oedd amddiffyn gwledydd bach. | ✓ |
| Tybiai'r mwyafrif mai rhyfel byr fyddai, ac y byddai'r cyfan ar ben erbyn y Pasg. | |
| Roedd yn rhaid bod o dan 5 troedfedd 3 modfedd i gael eich derbyn. | |
| Byddai'n rhaid pasio prawf deallusrwydd cyn cael bod yn filwr. | |
| Yr oedran priodol i ymuno oedd 18 oed. | ✓ |
| Byddai unrhyw ddyn oedd wedi colli mwy na 10 dant yn cael ei wrthod. | ✓ |

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

**Darn Darllen 3**

**Hanes Hedd Wyn**

**A5.** Beth oedd enw iawn y bardd Hedd Wyn ? [1]

Ellis Humphrey Evans

✓ = 1 marc

(Casglu gwybodaeth)

**A6.** Sut cafodd cadair Eisteddfod Genedlaethol Penbedw yr enw 'Y Gadair Ddu'? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]

- Cafodd gorchudd du ei osod ar y gadair. ☑

1 marc am roi ✓ yn y blwch cywir:

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

© WJEC CBAC Cyf.

**A7.** Pam nad oedd pob glöwr, meddyg, gweithiwr ffatri nac amaethwr yn gorfod cofrestru i fynd i ymladd? Rhowch ✓ gyferbyn â'r ateb cywir. [1]

| | |
|---|---|
| Roedd eu gwaith yn bwysig i ennill y rhyfel. | ✓ |

(Dehongli gwybodaeth)

**Darn Darllen 4**

**Taith gan Gwmni Teithio Seren Arian i Goffáu Can Mlynedd ers Marwolaeth Hedd Wyn yn 1917**

**A8.** Beth yw pwrpas y darn hwn gan Gwmni Seren Arian? [1]

Perswadio pobl i fynd ar daith i gofio am Hedd Wyn. ☑

(Dehongli)

**A9.** Sut mae'r awdur yn ceisio denu pobl i ymuno â'r daith? Cofiwch ddefnyddio tystiolaeth o'r darn darllen i gefnogi eich sylwadau. [8]

© WJEC CBAC Cyf.

Gellir sôn am bwyntiau fel:

| | |
|---|---|
| berfau gorchmynnol i berswadio | ymunwch<br>archebwch |
| ansoddeiriau i wneud y cyfan yn fwy apelgar | e.e.<br>gwyliau tywys arbennig<br>bws cyfforddus<br>gwlad brydferth<br>gwesty moethus<br>pryd nos blasus<br>eglwys hardd<br>taith deimladwy<br>cofeb drawiadol |
| berfenwau cadarnhaol i gyfleu mwyniant | e.e.<br>ymlacio<br>gwledda<br>difyrru<br>mwynhau<br>rhannu |
| rhestru<br><br>Rhestrir yr holl leoliadau difyr/perthnasol i hanes Hedd Wyn i ddangos mor gynhwysfawr yw'r daith. | e.e. Mynwent Tyne Cot, Amgueddfa Passchendaele, Cyngerdd Coffa Langemark<br><br>rhestru trefn y daith |
| defnyddio berfau person 1af lluosog<br><br>rhagenwau ein ac eich<br><br><br>ffurfiau 1af lluosog yr arddodiaid<br><br>cyfeirio'n uniongyrchol at y darllenydd<br><br>Mae hyn yn gwneud y darn yn fwy personol, yn 'cynnwys' y darllenwyr a gwneud iddynt deimlo eu bod yn rhan o'r trefniadau. | e.e. byddwn<br><br>ein gwesty<br>rhoi amser i chi<br><br>gan fod gennym docynnau<br><br>cyfarch y darllenydd |
| enwi artistiaid<br><br>pwysleisio'r adloniant | e.e. Rhys Meirion<br>Côr Meibion Prysor<br>Côr Rygbi Gogledd Cymru |
| diwyg a'r defnydd o liw / isdeitlau | |
| rhannu'r wybodaeth i ddiwrnodau | |
| logo'r cwmni | |
| dyddiadau | |
| teimlad o falchder / emosiwn | Archebwch... i osgoi cael eich siomi<br>Balchder cenedlaethol |

© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

**0 marc**
os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn

**1-2 marc**
peth ymdrech i drafod arddull/technegau'r testun yn fras

**3-4 marc**
ymdrech eithaf da i drafod arddull/technegau a ddefnyddir yn y testun gan gynnwys ambell enghraifft/dyfyniad a dechrau dadansoddi

**5-6 marc**
trafod arddull/technegau yn dda iawn gan gynnwys rhai enghreifftiau/dyfyniadau a dadansoddi'n dda

**7-8 marc**
trafod arddull/technegau yn ddeallus gan gynnig dyfyniadau/cyfeiriadau yn gyson a dadansoddi'n hyderus

✓ - nodwedd/techneg
t – tystiolaeth
d – dadansoddi

**Darn Darllen 5**

**Aelod Seneddol yn galw am newid isafswm oedran recriwtio i'r lluoedd arfog**

**A10.** Pam mae AS Plaid Cymru, Liz Saville-Roberts wedi gofyn i'r Llywodraeth drafod oedran ymuno â'r lluoedd arfog? [1]

Unrhyw un o'r canlynol:

- gan ei bod yn poeni am iechyd/lles pobl ifanc
- codi'r oedran recriwtio i'r lluoedd arfog/fyddin o 16 i 18 oed
- adolygu isafswm oedran ymuno â'r fyddin

✓ = 1 marc

(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth)

**A11.** Pa air sy'n dangos bod nifer o bobl a mudiadau yn gweld bai ar y Llywodraeth? [1]

Condemnio

(Dehongli ac adnabod geiriau)

© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 5 a 6**

**Aelod Seneddol yn galw am newid isafswm oedran recriwtio i'r lluoedd arfog**
**"Ymunwch Â'r Fyddin a Gweld y Byd" – Ond Beth Arall?**

**A12.** Mae'r AS Liz Saville-Roberts yn narn darllen 5 a'r Esgob John Davies yn narn darllen 6 yn galw am godi'r oedran cyfreithiol i ymuno â'r lluoedd arfog o 16 i 18.

**Cyfunwch** y wybodaeth o'r ddau ddarn i ddangos:

- pryderon am yr oedran recriwtio
- rhesymau dros godi'r oedran recriwtio. [8]

(Cyfuno gwybodaeth o ddau destun drwy ddadansoddi, dehongli ac egluro)

Gellir sôn am syniadau fel:

| Darn Darllen 5 | Darn Darllen 6 |
|---|---|
| **Pryderon**<br>1. Perygl dioddef straen wedi trawma<br>2. Mwy o siawns i gamddefnyddio alcohol<br>3. Cynyddu siawns cyflawni hunanladdiad<br>4. Elusen *Medact* yn dangos bod recriwtiaid ifainc yn fwy tebygol o ddioddef problemau meddwl<br>5. Mwy tebygol o ddioddef cyflyrau trawma<br>6. Mwy agored i dactegau marchnata milwrol<br>7. Poeni am les pobl ifanc<br>**Rhesymau**<br>8. Nid yw pobl ifanc yn oedolion nes cyrraedd 18 oed.<br>9. Anghyfreithlon i brynu tân gwyllt<br>10. Anghyfreithlon i brynu cyllyll<br>11. Dim hawl rhoi bet<br>12. Dim hawl prynu alcohol<br>13. Yn erbyn y gyfraith i gael tatŵ<br>14. Rhaid bod yn 18 i chwarae gemau cyfrifiadur treisgar<br>15. Pobl ifanc ddim yn rhoi cydsyniad llawn i ymuno â'r lluoedd arfog<br>16. Arbenigwyr iechyd plant yn beirniadu Llywodraeth Prydain<br>17. Cyrff Rhyngwladol yn gweld bai ar Brydain<br>18. DU yw unig aelod Cyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig, NATO a'r Undeb Ewropeaidd sy'n recriwtio plant<br>19. Gwledydd fel Zimbabwe, Iran a Gogledd Corea ddim yn gadael i blant ymrestru | **Pryderon**<br>1. Yn seicolegol dydyn nhw ddim yn ddigon cryf i wynebu'r caledwch.<br>2. Cwestiynu ydyn nhw'n ddigon cryf i wynebu'r risgiau<br>3. Straen wedi trawma yn salwch difrifol<br>4. Ddim yn ddigon aeddfed i ymdopi<br>**Rhesymau**<br>5. Er bod y lluoedd arfog yn cynnig pob math o brofiadau (gweld y byd), y prif bwrpas yw gweithredu'n filwrol.<br>6. Nid yw realiti ymuno â'r fyddin yn gwbl amlwg i bawb.<br>7. 18 oed oedd yr oed isaf hyd yn oed yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.<br>8. Chaiff pobl 16 oed ddim pleidleisio.<br>9. Does ganddynt ddim hawl i yrru.<br>10. Ni chânt briodi heb ganiatâd.<br>11. Anghyfreithlon prynu alcohol<br>12. Dim hawl prynu tybaco<br>13. Yn gyfreithiol maent dan oed. |

© WJEC CBAC Cyf.

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.

**0 marc**
os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn

**1marc**
peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun drwy restru’r pryderon/rhesymau yn fras 1-3 pryder/rheswm

**2 farc**
peth ymdrech i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun drwy restru’r pryderon/rhesymau yn fras 4-6 pryder/rheswm

**3 marc**
ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun wrth restru’r pryderon/rhesymau. 7-9 pryder/rheswm

**4 marc**
ymdrech eithaf da i gyfuno gwybodaeth o’r ddau destun wrth restru’r pryderon/rhesymau. 10+ pryder/rheswm

**5 marc**
cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn dda iawn gyda rhai sylwadau perthnasol wrth gyflwyno’r pryderon/rhesymau

**6 marc**
cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn dda iawn gyda sylwadau perthnasol wrth gyflwyno’r pryderon/rhesymau

**7-8 marc**
cyfuno gwybodaeth o’r ddau destun yn aeddfed gan ddehongli wrth drafod y pryderon/rhesymau

p – pryder
rh – rheswm
d - dehongli

Trafod un darn yn unig – tynnu 1 marc.

© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

Rhy fyr – cosbi o fewn y disgrifiadau

© WJEC CBAC Cyf.